



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe
Swansea Bay University
Health Board

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

14 Hydref 2020



Croeso a Chyflwyniadau

- Dyma ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a bu'n flwyddyn anarferol iawn;
 - Roedd yn anrhydedd i mi gael fy mhenodi fel ein cadeirydd newydd;
 - Byddwn yn ffarfwelio â Tracy Myhill yn fuan, wrth iddi ymddeol fel ein prif weithredwr.
 - Mae hwn yn gyfle:
 - i ni rannu'r hyn sydd wedi digwydd yn y bwrdd iechyd yn ystod 2019-20; ac
 - i chi ofyn cwestiynau i'r Bwrdd
- Emma Woollett, Cadeirydd



Covid-19

- Ni allai unrhyw un fod wedi rhagweld y byddem yn wynebu'r fath adeg heriol ar ddiwedd y flwyddyn, nid yn unig i ni ond ledled y byd;
- Mae ymroddiad ac ymateb ein staff wedi bod yn anhygoel, ac maent yn aml wedi aberthu'n bersonol;
- Rhaid i ni ddefnyddio'r cyfle hwn i ddysgu o'r newidiadau rydym wedi eu gwneud a chadw'r gwelliannau lle bynnag y gallwn ni.



- Mae rhai o'r pethau a wnaethom yn sgil y pandemig yn cynnwys:
 - Sefydlu canolfan gydlynu a oedd yn rheoli ein hymateb;
 - Sefydlu dau ysbyty maes o fewn wythnosau – un yn Llandarsi a'r llall yn Stiwdios y Bae;
 - Creu uned achosion brys a derbyniadau pediatrig yn Ysbyty Treforys;
 - Addasu'r adran cleifion allanol yn Ysbyty Treforys er mwyn ei defnyddio fel ardal gofal critigol;
 - Gweithio'n ddiflino ac yn hyblyg er mwyn cwrdd ag anghenion y gwasanaethau – mae ein staff wedi bod yn wych, gyda rhai'n newid eu rolau i ofalu am gleifion Covid-19 pan gafodd eu gwasanaethau eu hunain eu hoedi;
 - Llunio rhestr Amazon er mwyn i bobl gyfrannu eitemau hanfodol ar gyfer cleifion mewnol, fel pethau ymolchi, dillad nos a llyfrau, gan nad oedd yn bosib mwyach i berthnasau ddod ag eitemau fel hyn i'r ysbyty.



- Yn anffodus, rydym wedi colli cydweithwyr annwyl iawn i'r feirws:



Liz Spooner, Nyrs Staff,
Ysbyty Singleton

Jenelyn Carter, Nyrs Banc,
Uned Asesu Meddygol
Acíwt, Ysbyty Treforys



Linnette Cruz, Uwch Brif
Nyrs, Practis Deintyddol
Brynteg, Y Sgeti

Sharon Bamford, Ward 12,
Ysbyty Singleton



- Rydym hefyd yn talu teyrnged i Gerallt Davies, sef parafeddyg gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, a oedd yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn yr adran achosion brys.



Wynebau newydd

- Eleni, rydym wedi ffarwelio â rhai aelodau o'r bwrdd gweithredol:
 - Hazel Robinson, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol;
 - Gareth Howells, Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad y Claf
 - Lynne Hamilton, Cyfarwyddwr Cyllid
- Ac rydym wedi croesawu:
 - Kathryn Jones, Cyfarwyddwr Dros Dros ar gyfer y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol;
 - Christine Williams, Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Nyrsio a Phrofiad y Claf
 - Darren Griffiths, Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro



Ein staff



- Lansiwyd #ByweinGwerthoedd er mwyn i staff wneud addunedau am sut maent yn byw ein gwerthoedd;
- Dechreuodd *The Guardian Service* ddarparu cymorth cyfrinachol ac annibynnol er mwyn i staff godi pryderon;
- Parhawyd â Gwobrau Dewis y Cleifion, gyda 194 o staff, timoedd ac adrannau'n cael eu cydnabod;
- Cafodd Jean Saunders ei chroni'n Nyrs y Flwyddyn Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru am ei gwaith yn rhoi cymorth i geiswyr lloches.



Ein staff (parhad)...

- Cafodd 58.6% o staff y rheng flaen eu brechu rhag y fflw;
- Ymunodd Calon, sef ein rhwydwaith staff LGBT+ a'u cynghreiriaid, â Pride Abertawe a Pride Cymru;
- Sefydlwyd rhwydwaith pobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) newydd i wella dealltwriaeth ddiwylliannol, gwella cymorth staff a hybu gofal cleifion;
- Cynhaliwyd sesiynau i staff ar drawsrywedd.



Mae nifer o ddatblygiadau digidol wedi'u rhoi yn eu lle:

- Porth Cleifion Bae Abertawe - offeryn digidol sy'n caniatáu i'n dinasyddion gael mynediad at eu cofnodion gofal eu hunain, gan eu grymuso i gymryd mwy o gyfrifoldeb a chwarae rhan weithredol yn eu gofal;
- Byrddau gwyn electronig (Signal) – cânt eu defnyddio yn lle'r byrddau gwyn traddodiadol ar y wardiau, er mwyn gwneud yn siŵr bod gwybodaeth fyw ar gael ar gyfer pob claf yn ein hysbytai;
- Moderneiddio cofnodion iechyd – cyflwynwyd tagiau electronig ar gofnodion papur cleifion. Mae hyn wedi gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cofnodion papur tra ydym yn newid o gofnodion papur i rai electronig;
- Galluogi gwybodaeth a dadansoddiadau busnes – cyflymu'r defnydd o ddangosfyrddau dadansoddi a gwybodaeth busnes ar draws y sefydliad i gefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.



Lles staff yn ystod Covid-19

- Ymestyn gwasanaethau iechyd galwedigaethol a lles staff i saith niwrnod yr wythnos;
- Gweithio mewn partneriaeth â'r gaplaniaeth, seicoleg a dysgu ac addysgu i wella'r cymorth sydd ar gael i staff;
- Adleoli 30 o glinigwyr ychwanegol i iechyd galwedigaethol er mwyn rhoi cymorth i staff ag asesiadau ac ymholiadau am Covid-19;
- 4,336 o aelodau o staff wedi'u cyfeirio ar gyfer profion Covid-19, gyda 22.58% o'r rhain yn achosion positif;
- Cais llwyddiannus am gronfeydd elusennol i gynorthwyo i roi TRiM ar waith, er mwyn nodi a chefnogi trauma staff.
- Yn dilyn y gwaith hwn, enillodd y tîm ddwy wobwr yng Ngwobrau Iechyd Galwedigaethol a Lles *Personnel Today*, gan ennill 'Tîm Iechyd Galwedigaethol y Flwyddyn (Sector Cyhoeddus)' a'r wobwr 'Menter Orau gan Dîm Iechyd Meddwl (tîm amlddisgyblaethol)'.




Ansawdd a Diogelwch

- Gwnaethom sicrhau gostyngiad o 7% mewn meysydd sydd o dan bwysau;
- Mae rhoi'r Ddeddf Staff Nyrsio ar waith wedi lleihau nifer y cwympiadau, y cwynion, y briwiau pwyso a'r gwallau mewn meddyginiaeth, yn sgil gwella ansawdd y gofal;
- Dechreuwyd grŵp cymorth newydd o'r enw *The Rally* ar gyfer dynion ym Mae Abertawe sy'n poeni am eu hiechyd meddwl;
- Mae ein gwasanaethau 'Helpa Fi i Stopio' wedi helpu bron 2,000 o ysmygwyr i roi'r gorau i ysmegu;
- Mae 'Adre o'r Ysbyty' yn rhoi cymorth i bobl dros 65 ddychwelyd adref cyn gynted ag y maen nhw'n ddigon da, gan ganiatáu iddynt wella mewn amgylchedd mwy cyfarwydd.
- Gwelwyd bod gwasanaeth peilot yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, sef Canolfan Diagnosis Cyflym, wedi golygu gostyngiad o hyd at 92% yn amseroedd aros rhai cleifion.
- Mae dros £12m yn cael ei wario dros dair blynedd ar offer newydd ar gyfer Canolfan Ganser De-Orllewin Cymru yn Ysbyty Singleton.



Perfformiad

- Er i Covid-19 effeithio ar ein gallu i berfformio fel roeddem yn ei ddymuno ac effeithio ar ein gallu i ddarparu gofal effeithlon ac amserol i'n cleifion, fe wnaethom gynydd o hyd:
- Yn ystod 2019-20, cyflawnodd y bwrdd iechyd y gwelliannau disgwyliedig o ran lleihau'r heintiau a ddaliwyd wrth gael gofal iechyd;
- Cyflawnodd ei holl broffiliau lleihau mewnol ar gyfer pob un o'r pum mesur cenedlaethol, a gyflawnwyd drwy ganolbwyntio ar safonau glanhau gwell a staff glanhau ychwanegol; gwell hyfforddiant; adnodd ychwanegol ar gyfer rheoli ac atal heintiau, a threfn rheoli perfformiad glir.



- Erbyn diwedd 2019-20, roedd 85% o gleifion canser, a atgyfeiriwyd gan eu meddygon teulu fel achosion brys oherwydd amheuaeth o ganser, yn dechrau ar eu triniaeth o fewn 62 diwrnod. Erbyn mis Mai 2020, ni oedd yn perfformio orau yng Nghymru yn erbyn y targed.
- Gwnaethom welliannau cyson tuag at gwrdd â'r targed i dderbyn cleifion i'r uned strôc aciwt o fewn 4 awr, ac ar ddiwedd mis Mawrth 2020 cyrhaeddwyd perfformiad o 100%. Bu gwelliant hefyd yn nifer y cleifion a oedd yn derbyn sgan CT o fewn awr. Unwaith eto, cyrhaeddwyd perfformiad o 100%.
- O ran gofal heb ei drefnu, roedd sefyllfa'r bwrdd iechyd yn gwella'n barhaus erbyn diwedd 2019-20, a gallai'r bwrdd ddangos fod y system yn llawer mwy cydnerth.
- Drwy gydol 2019-20, bu'n heriol cyflawni'r lefelau perfformio disgwylidig ar gyfer gofal wedi'i gynllunio, er i ni ddechrau gweld cynnydd yn Ionawr a Chwefror, cyn y penderfyniad ym mis Mawrth i oedi'r gweithgarwch arferol.



Cyllid

- Eleni, cafwyd y set gyntaf o gyfrifon ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe;
- O ystyried yr heriau yn sgil newid ffiniau Pen-y-bont ar Ogwr a Covid-19, roedd yn anodd cynnal arolwg dadansoddol, ac mae Covid-19 yn debygol o fod yn her am nifer o flynyddoedd;
- Adroddodd y bwrdd iechyd ddiffyg o £16.284m ar gyfer 2019-20. Er bod hyn o fewn y rhagolwg terfynol o £16.3m, mae'n golygu gorwariant o £58.58m yn ei gyllideb, sef methiant i gyflawni'r ddyletswydd ariannol;
- Cyfarfu'r bwrdd iechyd â'i derfyn adnoddau cyfalaf a nododd sefyllfa ariannol o £0.028m. Cyflawnwyd hyn hefyd mewn perthynas â'r swm ar gyfer cyfnod treigl o dair blynedd, sef £0.110m;
- Nid oedd gan y bwrdd iechyd gynllun tair blynedd cymeradwy, a oedd yn golygu methiant i gyflawni'r ddyletswydd ariannol.



Ailosod ac adfer

- Mae gennym lwybr hir o'n blaenau wrth i ni ddod dros y pandemig, ac rydym yn dal i wynebu ansicrwydd, ond mae rhai o'r cynlluniau'n cynnwys:
 - Parhau i ddarparu a chynyddu gwasanaethau ar gyfer yr holl wasanaethau gofal sylfaenol a geir drwy gontract (meddygon teulu, deintyddion, optometryddion a fferyllfeydd)
 - Parhau i ddatblygu, mewn partneriaeth, ein cynlluniau strategol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion;
 - Ehangu'r ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau cleifion allanol fel bod apwyntiadau wyneb yn wyneb yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer y rhai y mae eu hangen arnynt;
 - Gwella effeithlonrwydd a capasiti er mwyn cefnogi gwasanaethau diagnostig a llawdriniaethau ar gyfer achosion o ganser;
 - Symud gwasanaethau orthopedig penodol i Ysbyty Castell-nedd Port Talbot er mwyn rhoi cymorth i ailgychwyn rhai triniaethau orthopedig.



Diolch

- Diolch i chi i gyd am ddod i'n Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – roedd yn flwyddyn wahanol iawn i'r hyn a gynlluniwyd a bu'n heriol ac yn drasig. Er hynny, mae wedi rhoi'r cyfle i ni ddysgu a gwneud y newidiadau sydd eu hangen er mwyn darparu iechyd gwell, gofal gwell, bywydau gwell.
- Unrhyw gwestiynau?

